**Atodiad 7 – Sylwadau'r Aelod Lleol**

*"Fel Aelod Lleol, rwyf wedi nodi cynnwys yr adroddiad a'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd, ac rwy'n parhau i wrthwynebu'r cynnig i gau Ysgol Nebo.*

*Rwy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol o ran niferoedd disgyblion, lleoedd gweigion a chostau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r cynnig i gau wedi deillio o unrhyw fethiant yn ansawdd yr addysg, ac mae'r adroddiad ei hun yn cydnabod bod dysgwyr Ysgol Nebo yn gwneud cynnydd da mewn amgylchedd dosbarthiadau bach.*

*Rwy'n parhau i gefnogi cynnig amgen y Corff Llywodraethol i gadw Ysgol Nebo ar agor fel ysgol brif ffrwd, gan ddatblygu ei rôl fel darpariaeth feithringar i gefnogi plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Credwn fod cyfle yma i adeiladu ar gryfderau ysgol Nebo a datblygu darpariaeth a allai fod o fudd ehangach i blant Gwynedd.*

*Rwyf hefyd yn bryderus am effaith cau'r ysgol ar gymuned Nebo a'r Gymraeg. Mae cau ysgol wledig yn benderfyniad na ellir ei wrthdroi'n hawdd, ac mae'r effaith yn mynd ymhellach na'r niferoedd a'r gost fesul dysgwr yn unig.*

*Am y rhesymau hyn, rwy'n parhau i wrthwynebu cau Ysgol Nebo ac yn gofyn i'r Cabinet ailystyried y cynnig amgen cyn gwneud y penderfyniad terfynol."*